

Trawsgrifiad Fideo - Tarek Lakhri: Fy Anfarwrol ym MOSTYN, Cymru DU.

(Mae Tarek Lakhri yn siarad am Fy Anfarwrol. Arddangosfa i'w gweld yn MOSTYN, Cymru, DU tan 19 Medi 2021)

Iaith: Saesneg

Is-deitlau: Saesneg, Cymraeg

I agor y sioe hon, dechreuwn gyda'r fideo yma "The Art of Losing" a dyna, yn y bôn, echdynnyn yn cyflwyno Jahid, sef prif gymeriad fy ffilm sydd ar ddod, ac yn y bôn mae'n asio ag anghenfil sy'n cynrychioli dawnsiwr gogo gyda phen dinosor. Ac i ddyfynnu Theo Gordon mae'n fath o anfarwoli o gofleidiad cwiar diflannol. Ac rwy'n falch iawn ei fod yn agor y sioe oherwydd mae yna hefyd yn y bôn dim ond cynrychiolaeth o gofleidiad cwiar, a'r sain sydd wedi'i chynhyrchu gan Fatma Pneumonia, math o hiraeth... hefyd presenoldeb rhywfaint o gerddoriaeth electronig.

Pan fyddwch chi'n parhau gallwch weld ystafell gyda phlatiau metelaidd gyda cherddi. Ysgrifennwyd y cerddi hyn yn ystod y cyfnod cloi cyntaf ac mae'n fath o gynrychioli fy mherthynas â barddoniaeth. Rhywbeth emosiynol iawn eto ond hefyd yn eithaf syml iawn, weithiau'n oer, weithiau'n gynnes, weithiau'n cwrdd i greu cysylltiad â'r ymwelydd. Yn y bôn, dyma pam mae'r platiau metelaidd yn bresennol, mae hefyd yn rhoi adlewyrchiad ohonoch chi'ch hun pan ydych yn darllen y gerdd, a dyna pam mae'n bwerus iawn i mi farddoniaeth, yn yr ystyr hwnnw, oherwydd gall barddoniaeth greu cymunedau, gall greu cysylltiadau, gall greu ffordd bwysig iawn i weld eich hun trwy eiriau.

I barhau, yn y drydedd ystafell gallwch weld dau, eto adenydd angel metelaidd, un o'r enw 'Gay Angel' a gelwir yr ail un yn 'Gay Angel II'. Maent hefyd yn cynrychioli teyrnged arall i farwolaeth syrthiedig, eto mewn perthynas â chymunedau cwiar, oherwydd i mi mae gofod y cymunedau cwiar, yn amlwg yn anfarwol, ond hefyd yn llawn cariad, yn llawn carennydd, yn llawn trais hefyd. A dyna pam ei fod mor bwysig, a dyna pam bod y manau yma yw'r hyn sy'n fy ngwneud i'n fyw heddiw, sy'n fy ngwneud i beth ydw i. Ac yn amlwg os ydych chi'n meddwl am deulu, rydw i hefyd yn meddwl am fy nheulu cyntaf, a sut hefyd mae fy rhieni, fy chwiorydd yn bopeth i mi a'u bod nhw... fydda i byth yr hyn ydw i heddiw hebddyn nhw. Mae'r adenydd angel hyn hefyd yn fath o winc i'r diwylliant X-men, oherwydd mae hefyd yn ddwy adain angel sy'n dod o X-men sydd hefyd o'r enw Angel. Ac yr oedd hefyd, i mi, yn ffordd i feddwl am y mwntanau hyn hefyd fel trosiadau cwiar, fel sut i oroesi mewn byd nad yw'n cyfateb i chi'ch hun, sut i ffitio mewn i gymdeithas pan bod cymdeithas yn y bôn yn ymyleiddio'ch hunain, sut i fod yn rhyfedd ond hefyd yn bwerus.

Ac i orffen mae 'Unfinished Sentence', sy'n ddarn yr wyf wedi'i gomisiynu gan Palais de Tokyo y llynedd yn 2020, ac y gwnes i gyntaf yn 2019, CRAC Alsace. Ac mae'n ddarn sydd wedi'i ysbrydoli'n eithaf cryf gan Monique Wittig a'u llyfr Les Guérillères. Yn y bôn mae'n cynrychioli cytserau o 30 gwaywffon metel sydd yn allbynnau yn y gofod, i bwyntio i sawl

cyfeiriad gwahanol, gyda'r trac sain a gyfansoddwyd gan Ndayé Kouagou, wedi'i ysbrydoli gan 'Buffy the Slayer'. Ac rydw i'n hoff hefyd o gymysgu, fel roeddwn i'n sôn o'r blaen, X-men. Rwy'n hoffi creu ymasiadau a chysylltiadau â'r hyn rydyn ni'n ei alw'n ddiwylliant uchel a diwylliant pop, diwylliant is, ond hefyd sut i wneud cysylltiadau yn amlwg â'r ymwelwyr heb fod yno'n gorfforol, ond hefyd yn ymddiried yn y cerfluniau, y ffilmiau, y traciau sain, y presenolion sydd wedi'u creu trwy gydol y sioe, i wir greu math o foment anfarwol. A dymunaf ei fod yn digwydd, dymunaf pan fyddwch chi'n mynd i mewn i'r gofod hwnnw eich bod chi'n teimlo'n gysylltiedig ond hefyd wedi'ch datgysylltu o'r byd tu allan, ac y gallwch chi gael moment gyda chi'ch hun.